Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 400

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cyllid ar gyfer Digwyddiad Diogelwch 2025-26 Llanfair-ym-Muallt**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Sefydlwyd Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt yn 2017, gan sicrhau bod digwyddiadau a gynhelir yn ardal Llanfair-ym-Muallt adeg Sioe Frenhinol Cymru’n gweithredu’n ddiogel.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cefnogi’r grŵp hwn yn gyson (cyfeiriwch at gofnodion gwybodaeth DLl355 a DLl307).

Gofynnwyd am arian i gefnogi cyflenwi ymgyrch gyfathrebu 2025 Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt. Eleni, bydd yr arian yn canolbwyntio ar gyfathrebu ynghylch gwrth-sbeicio er mwyn codi ymwybyddiaeth a chyfeirio aelodau o’r cyhoedd at sut i adrodd am ddigwyddiadau lle mae amheuaeth o sbeicio.

Mae’r gweithgarwch hwn yn cyfrannu at un o flaenoriaethau’r Cynllun Heddlu a Throseddu, sef atal niwed.

**Argymhelliad:**
Cyfrannu £2,000.00 o Gronfa’r Comisiynydd tuag at gyflenwi ymgyrch gyfathrebu 2025 Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 22/07/2025**